



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Papur Gwyn: Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Ionawr 2015

C: Beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd?

Gan fod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu eisoes ar waith byddem yn argymhell bod y Cyngor, fel yr awgrymwyd, yn ymgysylltu yn rheolaidd er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson.

C: Ai'r cyrff cyhoeddus a restrir ym mharagraff 49 yw'r cyrff priodol i'w cynnwys mewn cylch gwaith ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod materion y gweithlu sy'n deillio o gynigion i uno awdurdodau lleol a'r angen am gyngor awdurdodol yn ystod y cyfnod hwn. Gwerthfawrogwn mai hon fydd blaenoriaeth gychwynol y Comisiwn staff anstatudol.

Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pa fuddiannau a fyddai'n cronni drwy gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill o bosibl, o fewn cylch gorchwyl Comisiwn Staff:

- a) Bydd ffocws y Comisiwn ar awdurdodau lleol: Er bod budd mewn cyd-ddysgu ar draws pob un o'r gwasanaethau cyhoeddus ni ddylid tybio bod un dull yn addas i bawb - ni fydd yr hyn sy'n gweithio i awdurdodau lleol o reidrwydd yn gweithio i gyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- b) Mae natur y gydberthynas rhwng Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn wahanol iawn i awdurdodau lleol. Mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu o fewn Fframwaith Llywodraethu a bennir gan Lywodraeth Cymru; mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynlluniau corfforaethol pob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; mae Llywodraeth Cymru yn anfon Llythyr Cylch Gorchwyl blynyddol i bob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i nodi ei flaenoriaethau; mae Llywodraeth Cymru yn pennu cylch gorchwyl taliadau blynyddol Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn pennu terfynau dirprwyo; mae pob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn destun gofynion deddfwriaethol penodol. Mae'r trefniadau llywodraethu, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu materion y gweithlu, eisoes wedi'u pennu'n dynn ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a gall Gweinidogion Cymru eu diwygio. Felly, nid ydym yn siŵr pa werth ychwanegol y byddai Comisiwn Staff yn ei gynnig.

- c) Mae maint llawer o'r sefydliadau a restrir gryn dipyn yn fwy na Cyfoeth Naturiol Cymru (a Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru). Mae perygl na fyddai rhai mentrau yn addas ar gyfer ein sefydliad ac yn ei gwneud yn anodd i ni barhau yn y ffordd rydym am dyfu a gweithredu.
- d) Cefnogwn yn llawn y gwaith o ddatblygu a lledaenu trefniadau gweithlu arfer da ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Academi Cymru eisoes yn gwneud gwaith rhagorol yn y maes hwn, a byddem yn cefnogi ehangu ei rôl os oes angen. Nid yw'r budd ychwanegol y byddai Comisiwn Staff yn ei ddarparu yn y maes hwn yn glir i ni.

Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau'r sector cyhoeddus ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, a hoffem i hyn barhau. Byddem yn falch o rannu ein profiadau ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill os bydd angen.

Ein hargymhelliad, felly, yw na ddylai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Comisiwn Staff. Dull amgen fyddai peidio â chynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ar y cam hwn o Gomisiwn Staff anstatudol, a rhoi ystyriaeth bellach i unrhyw gynigion pan gyflwynir deddfwriaeth ar gyfer Comisiwn Staff statudol.

Q: Ai'r dull a nodir ym mharagraffau 50 i 55 yw'r dull priodol?

At ddiben goruchwyllo'r broses o uno'r awdurdodau lleol mae'n ymddangos mai dyma'r dull cywir. Fel y nodwyd uchod, mae'r trefniadau llywodraethu ar faterion y gweithlu eisoes wedi'u rhagnodi ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gan Weinidogion Cymru.

C: Oes gennych chi unrhyw farn am amserlen y broses o sefydlu Comisiwn Staff anstatudol?

Rydym yn cydnabod bod rhoi'r Comisiwn Staff ar waith yn gyflym i gefnogi'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol yn broblem.

C: Oes gennych chi sylwadau pellach ar swyddogaeth y Comisiwn Staff anstatudol?

Nid yw'n glir sut y bydd y cynigion ar gyfer y Comisiwn Staff yn effeithio ar waith Academi Cymru. Mae cylch gorchwyl a chyfraniad Academi Cymru wedi bod o werth enfawr i Cyfoeth Naturiol Cymru ac ni fyddem am weld safle Academi Cymru yn gwanhau drwy'r datblygiad hwn. Mae'n ymddangos y byddai rhai o swyddogaethau'r Comisiwn Staff yn disodli rhai Academi Cymru.

Q: A yw'r sgiliau a'r profiad a nodwyd ym mharagraff 57 yn gywir?

Yn seiliedig ar brofiad Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n ymddangos bod y sgiliau a'r profiad a nodwyd yn briodol; mae profiad uniongyrchol o arwain a rheoli newid sefydliadol yn arbennig o bwysig.

C: Oes unrhyw brofiad neu sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y Comisiwn Staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr?

Gall fod yn fuddiol ystyried sut y caiff llais y cwsmer ei glywed yn nhrefodaethau'r Comisiwn - mae'r gweithlu yno i wasanaethu'r cwsmer. Set sgiliau arall a all fod yn ofynnol yw rheoli rhaglenni/prosiectau er mwyn helpu'r Comisiwn gyda'r rhaglen ddiwygio.

C: Ydy'r prosesau cyfathrebu arfaethedig a amlinellir ym mharagraffau 59 i 62 yn briodol?

Ydyn.

C: Ydy'r cysylltiadau arfaethedig rhwng y Comisiwn Staff anstatudol â'r IRP yn briodol?

Ydyn.

C: Oes yna faterion eraill o flaenoriaeth y dylai'r Comisiwn Staff ymwneud â nhw?

Gofyniad arall fyddai cynllunio strategol y gweithlu ar gyfer yr awdurdodau sy'n uno.

C: A fydd gwneud darpariaeth statudol ar gyfer y Comisiwn Staff yn ail Fil Llywodraeth Leol a gaiff ei gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod hydref 2016 yn gwella statws y Comisiwn?

Bydd.

C: A ddylid rhoi pwerau i'r Comisiwn Staff gyflwyno canllawiau ohono'i hun, neu ai argymhellion yn unig y dylai'r Comisiwn eu gwneud i Weinidogion Cymru ynghylch cyflwyno canllawiau?

Er mwyn nodi'r diben yn glir, byddem yn argymhell na ddylai ond fod yn gallu gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch cyflwyno canllawiau?

C: Pa bwerau fydd eu hangen ar y Comisiwn Staff statudol er mwyn darparu cyngor cywir ac awdurdodol?

Mae adfer gwybodaeth allweddol am staff er mwyn rhoi cyngor cywir ac awdurdodol yn hollbwysig.

Q: Ai'r pwerau a ddisgrifir ym mharagraffau 71 a 72 yw'r rhai cywir?

Byddem yn awgrymu bod unrhyw ganllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi drwy Lywodraeth Cymru yn hytrach nag yn uniongyrchol o'r Comisiwn Staff.

Q: Efallai y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig?

Mae'r pwerau a amlinellir yn y ddogfen yn ymddangos yn briodol.

C: Pa bwerau ychwanegol y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru er mwyn cefnogi'n effeithiol waith y Comisiwn Staff statudol, er enghraifft pwerau ar gyfarwyddo neu roi canllawiau?

Mae'r pwerau a amlinellir yn y ddogfen yn ymddangos yn briodol.

C: A ddylid cyfyngu'r Comisiwn Staff statudol o ran amser a'i ddiddymu'n raddol ar ddiwedd y rhaglen ddiwygio gyfredol?

Dylid - o gofio mai hanfod y Comisiwn Staff yw goruchwylio'r gwaith o uno llywodraeth leol.

C: Os na ddylid, pam hynny, a beth fyddai ei swyddogaeth wedi i'r Rhaglen Ddiwygio gael ei chwblhau?

Dd/G

C: Beth fyddai'r ffordd orau i'r Comisiwn Staff statudol helpu i sicrhau bod y dull partneriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o'r broses?

Cyngor Partneriaeth y Gymraeg fyddai yn y sefyllfa orau i oruchwylio'r gwaith hwn.